
Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Sut bydd y Ddeddf yn effeithio ar wasanaethau cymdeithasol?




## Cynllun unedig

Bydd cynlluniau datblygu unigol (CDUau) yn disodli'r gwahanol gynlluniau statudol ac anstatudol presennol ar gyfer dysgwyr o oedran ysgol gorfodol neu'n iau, yn ogystal ag ar gyfer dysgwyr sydd dros oedran ysgol gorfodol mewn ysgolion neu addysg bellach, gan gynnwys datganiadau o anghenion addysgol arbennig (AAA) a chynlluniau dysgu a sgiliau.

Mewn perthynas â'r rhan fwyaf o blant sy'n derbyn gofal, bydd CDUau yn cael eu hymgorffori yn y cynlluniau addysg personol sy'n ffurfio rhan o'u cynlluniau gofal a chymorth.

## Ystod oedran 0 hyd at 25

Bydd gwasanaethau cymdeithasol ac addysg yn cydweithio i gefnogi dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) o 0 i 25.

## Osgoi anghytundebau a datrys anghytundebau'n gynharach

Dylai gwasanaethau cymdeithasol sicrhau bod plant, eu rhieni/gofalwyr a phobl ifanc yn cael cyfle i godi pryderon a chael atebion cynnar i'w cwestiynau, er mwyn osgoi gweld anghytundebau yn codi.

## Y Gymraeg

Os bydd angen darpariaeth ddysgu ychwanegol drwy'r Gymraeg ar blentyn neu berson ifanc, rhaid cofnodi hynny yn y CDU a rhaid cymryd 'pob cam rhesymol' i sicrhau'r ddarpariaeth yn Gymraeg.

## Mwy o gydweithredu

Bydd ymgorffori CDUau o fewn cynlluniau addysg personol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn osgoi dyblygu ymdrech a dryswch, sy'n digwydd lle y caiff nifer o gynlluniau eu llunio ar gyfer yr un person. Bydd hyn yn ei gwneud yn bosibl cysoni ac integreiddio prosesau cynllunio a fyddai'n digwydd ar wahân fel arall.

Yn achos plant nad ydynt yn derbyn gofal, bydd modd mynd ati i baratoi, adolygu a diwygio CDUau ochr yn ochr â chynlluniau gofal a chymorth i sicrhau eu bod yn gydnaws â'i gilydd ac i osgoi dyblygu ymdrechion.

Bydd adrannau addysg a gwasanaethau cymdeithasol yn cydweithio i sicrhau trefniadau pontio effeithiol wrth i'r dysgwr symud i addysg bellach.

## Cod ADY gorfodol

Bydd y Cod ADY yn sicrhau bod gan y system newydd ar gyfer ADY ffiniau clir y mae modd eu gorfodi ar lefel gyfreithiol y mae'n rhaid i awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am gefnogi plant a phobl ifanc sydd ag ADY weithredu o'u mewn.

OGL © Hawlfaint y Goron 2018 WG34035